**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWAITH**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR GWAITH - DYDD MERCHER, 13 IONAWR 2021 DYDD MERCHER, 13 IONAWR 2021**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: N. DANIELS (CADEIRYDD)

Councillors J. Collins
D. Davies
J. Mason
J. Wilkins

WITH:

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| | **MATERION CYFFREDINOL** | |
| | **COFNODION** | |
| **No. 4** | **PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2020.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 5** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2020.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| | **EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION GWASANAETHAU CORFFORAETHOL** | |
| **No. 6** | **BLAENRAGLEN GWAITH – 24 CHWEFROR 2021**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Arweinydd y Cyngor.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 7** | **GRANTIAU I SEFYDLIADAU**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Derbyniwyd y grantiau ychwanegol dilynol i sefydliadau:-<br><br>**ABERTYLERI**<br>**Ward Abertyleri - Cynghorydd N. Daniels**<br>1. Eglwys Bedyddwyr Ebenezer £50<br><br>**BRYNMAWR** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Ward Brynmawr - Cynghorydd L. Elias**<br>1. Ysgol Gynradd Santes Fair Eglwys yng Nghymru £100<br><br>**GLYNEBWY**<br>**Ward De Glynebwy - Cynghorwyr J. Millard & K. Pritchard**<br>1. Rhandiroedd Rhiw Briery £75<br>2. Rhandiroedd Tyllwyn £75<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| | **EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION ADFYWIO A DATBLYGU ECONOMAIDD** | |
| No. 8 | **CYNLLUN ARGYFWNG BYSUS (BES)**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol am yr adroddiad sy'n rhoi trosolwg ar gynllun Cam 2 y Cynllun Argyfwng Bysus (BSE), yr ymateb i bandemig Covid-19 a'r trefniadau hir a wneir a fyddai'n gwneud y gwasanaethau bws yn fwy cynaliadwy ar draws Cymru. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y daith hyd yma a'r cynlluniau ar gyfer BES2. Mae cytundeb BES2 yn ffurfioli ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi adferiad gwasanaethau bws yn dilyn effaith COVID-19. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai angen i weithredwyr dan delerau cytundeb BES2 i ddarparu gwasanaethau bws sy'n diwallu'r anghenion lleol y byddid yn eu cael gan yr Awdurdod Arweiniol ar gyfer y rhanbarth. Gwneir y gwaith ar ran cymunedau'r awdurdodau lleol perthnasol. Diwedd gorffen contract BES2 yw 31 Gorffennaf 2022 a ddylai roi digon o amser ar gyfer adfer refeniw yn dilyn y pandemig.<br><br>Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol hefyd amlinellu'r cyfrifoldebau cyllido yn cyfeirio darpariaeth gwasanaethau a'r gwaith rhanbarthol a wneir. Amlinellodd hefyd y canlyniadau y | |

| | | |
|---|---|---|
| | gobeithir y caiff eu cyflawni gyda BES2 a'r hyn a olygai i weithredwyr bws sy'n cynnwys dull ar gyfer rheoli adferiad ac ail-lunio gwasanaethau bws i ymateb i effaith y pandemig.<br><br>Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ymhellach at yr opsiynau i gael eu hystyried a nododd yr opsiwn a ffafrir fel y manylir yn yr adroddiad.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd yng nghyswllt trafodaethau yn y Pwyllgor Craffu, cadarnhawyd fod Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn cefnogi'r dull gweithredu a'r buddion hirdymor.<br><br>Croesawodd Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd yr adroddiad a'r cynnydd a wneir drwy Trafnidiaeth Cymru sy'n cefnogi'r IRT. Mae'r prosiect yn rhoi cyfle i dyfu'r gwasanaethau sydd eisoes yn eu lle i wella gwasanaethau ar draws y rhanbarth. Gobeithir y bydd hefyd yn annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.<br><br>Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd groesawu'r adroddiad a theimlai y byddai gwasanaethau gwell yn fanteisiol i'n cymunedau. Teimlai'r Aelod Gweithredol o safbwynt Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai'n helpu i gynyddu eu hannibyniaeth a datblygu iechyd a llesiant meddwl.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac Opsiwn 1; sef bod Blaenau Gwent yn cymeradwyo cynnwys yr adroddiad ac yn cefnogi trefniadau BES2 fel rhan o ddull gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol. | |
| | **<u>EITEMAU MONITRO - GWASANAETHAU CORFFORAETHOL</u>** | |
| **No. 9** | **<u>ADOLYGIAD PERFFORMIAD BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD CHWARTER 1 2020/21</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Pennaeth Adfywio.<br><br>Cyfeiriodd yr Arweinydd at amseroldeb yr adroddiad sy'n rhoi gwybodaeth ar gyfer Chwarter 1, sy'n cwmpasu cyfnod mis Ebrill i fis Mehefin 2020. Er bod y Chwarter hwn yn rhoi sylw i lawer iawn | |

| | | |
|---|---|---|
| | o waith da a wnaed yn y cyfnod hwn, bu hefyd lawer o waith ychwanegol.<br><br>Ychwanegodd yr Arweinydd ei fod wedi codi'r pryderon hyn gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr gan fod angen cyflwyno adroddiadau mwy amserol i gael eu hystyried gan y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Craffu. Gobeithid y byddai adroddiad mwy diweddar yn cael ei lunio yn y dyfodol i alluogi Aelodau etholedig a phreswylwyr i weld yr effaith a gafodd y Fargen Ddinesig ar Flaenau Gwent.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef ystyried y cynnydd cyffredinol ar raglen waith Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gyfer 2020/21. | |
| **No. 10** | **<u>MONITRO PERFFORMIAD STRATEGAETH CYFATHREBU CORFFORAETHOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Masnachol.<br><br>Cyfeiriodd yr Arweinydd at yr adroddiad a gyflwynwyd i ystyried perfformiad y Strategaeth Cyfathrebu. Oherwydd pandemig Covid-19, teimlai'r Arweinydd nad yw'r strategaeth wedi cyflawni ei photensial, fodd bynnag dymunai ganmol y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol am eu gwaith yn ystod y pandemig i sicrhau fod yr wybodaeth ar gael yn y parth cyhoeddus.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac Opsiwn 1; sef nodi perfformiad y Strategaeth Cyfathrebu, yn neilltuol ar effaith y strategaeth yn ystod pandemig Covid-19. Y cyfnod dan sylw fyddai rhwng mis Mawrth a mis Medi 2020. | |
| **No. 11** | **<u>MONITRO PERFFORMIAD Y STRATEGAETH FASNACHOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Masnachol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac Opsiwn 1; sef nodi perfformiad y Strategaeth Fasnachol yn ystod y cyfnod mis Mawrth 2020 – mis Medi 2020. | |
| **No. 12** | **<u>PARATOADAU AR GYFER TROSIANT YR UNDEB EWROPEAIDD</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac Opsiwn Un, sef bod y Pwyllgor Gweithredol yn nodi'r cynnydd a wnaed yn y cyfnod trosiant ac yn derbyn adroddiadau diweddaru fel rhan o'i flaen-raglen gwaith. | |
| **No. 13** | **<u>PERFFORMIAD ABSENOLDEB SALWCH</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>Nododd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol mai'r ffigur all-dro cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ac all-dro y Cyngor oedd 13.91 diwrnod fesul gweithiwr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn – byddai'r ffigur yn gostwng i 13.48 diwrnod drwy eithrio salwch Covid-19. Mae'r ffigurau yn gynnydd o all-dro'r flwyddyn flaenorol o 12.66 diwrnod ac yn fwy na'r targed a osodwyd o 11 diwrnod. Dywedodd y Swyddog fod lefelau absenoldeb y Cyngor wedi bod yn gyson uwch na 11 diwrnod o absenoldeb salwch fesul gweithiwr cyflogedig llawn-amser. Cyfeiriodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol at y camau gweithredu parhaus i reolwyr sy'n rhoi manylion nifer o gamau. Rhoddir adroddiad chwarterol ar berfformiad absenoldeb salwch i'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol a chaiff ei gynnwys fel rhan o'r adroddiad Cyllid a Pherfformiad i Aelodau.<br><br>Rhoddodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol y sefyllfa bresennol o ran absenoldeb salwch a dywedodd y bu gostyngiad mewn salwch yn Chwarter 1 gyda 2.49 diwrnod (2.21 ac eithrio Covid) fesul gweithiwr cyflogedig llawn-amser oedd yn cymharu gyda 3.05 diwrnod ar gyfer yr un cyfnod y llynedd. O ran Chwarter 2, adroddwyd 4.83 diwrnod (4.43 ac eithrio Covid) o gymharu â 5.96 diwrnod ar gyfer yr un cyfnod y llynedd.<br><br>I gloi, dywedodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol fod y Cyfarwyddiaethau wedi adolygu'r 20 achos uchaf o absenoldeb salwch ar gyfer eu maes gwasanaeth ac y byddai gan y Strategaeth Gweithlu newydd ffocws parhaus ar lesiant y gweithlu.<br><br>Cyfeiriodd yr Arweinydd at bryderon a fynegwyd gan Aelodau yn nhermau adroddiadau am berfformiad absenoldeb salwch a theimlai fod angen trafodaethau pellach ar yr amser priodol i | |

| | | |
|---|---|---|
| | gyflwyno adroddiadau chwarterol i'r pwyllgorau craffu perthnasol hefyd. Dywedodd hefyd y byddai'n ddiddorol deall yr effaith a gafodd gweithio gartref ar ostwng lefelau absenoldeb salwch.<br><br>Yn dilyn trafodaethau, cytunwyd y cyflwynir adroddiadau chwarterol mwy trylwyr ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth i gael eu hystyried gan y Pwyllgor Gweithredol a Phwyllgorau Craffu.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol â'r uchod, i dderbyn yr adroddiad ac Opsiwn 1; sef bod Aelodau ar ôl ystyried gwybodaeth perfformiad absenoldeb salwch a'r camau sy'n mynd rhagddynt i gefnogi gwella presenoldeb o fewn y Cyngor, yn dynodi unrhyw feysydd pellach i gael eu gwella er mwyn hybu gwella perfformiad. | |
| | **EITEMAU MONITRO - ADFYWIO A DATBLYGU ECONOMAIDD** | |
| **No. 14** | **ADOLYGIAD BLYNYDDOL PROSBECTWS YNNI**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio.<br><br>Croesawodd yr Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd yr adroddiad sy'n hollbwysig wrth symud tuag gynnal gwaith dim carbon a byddai prosiectau pellach yn dod ymlaen wrth i'r gwaith fynd rhagddo.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac Opsiwn 2; sef parhau i gefnogi, hyrwyddo a datblygu'r prosiectau o fewn y prosbectws ynni ac i sicrhau fod y ddogfen yn cael ei diweddaru i adlewyrchu unrhyw brosiectau ychwanegol a ddaeth i'r amlwg. Byddir hefyd yn parhau i ddynodi prosiectau yn y dyfodol fyddai hefyd yn ateb gweledigaeth ac amcanion y Cyngor yng nghyswllt ynni a datgarboneiddio. | |
| | **EITEMAU MONITRO - YR AMGYLCHEDD** | |
| **No. 15** | **GORFODAETH PARCIO SIFIL – DIWEDDARIAD GWASANAETH** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac Opsiwn A; sef y diweddariad ar gynndd ar Orfodaeth Parcio Sifil ers ei gyflwyno yn 2019. | |
| **No. 16** | **<u>ADRODDIADAU GWEITHGAREDDAU – GORFODAETH GORCHMYNION SBWRIEL A RHEOLI CŴN AM Y FLWYDDYN ARIANNOL 2019/20</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Rheolwr Tîm Diogelu'r Amgylched.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 17** | **<u>UCHELDIR CYDNERTH DE DDWYRAIN CYMRU – CYNLLUN RHEOLI CYNALIADWY RHAGLEN DATBLYGU GWLEDIG CYMRU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac Opsiwn 1; sef nodi'r gweithgaredd yn gysylltiedig â Phrosiect Ucheldir Cydnerth De Ddwyrain Cymru a pharhau i gefnogi'r dull cydweithio sydd yn y rhaglen. | |
| | **<u>EITEMAU MONITRO – ADDYSG</u>** | |
| **No. 18** | **<u>CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG 2019/20 BLAENAU GWENT AC ADRODDIAD CYNNYDD AR Y CYNNIG GRANT CYFRWNG CYMRAEG</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r camau gweithredu cysylltiedig. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **No. 19** | **<u>RHAGLEN GWELLA YSGOLION 2020</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 20** | **<u>RHEOLI LLEOEDD DISGYBLION A'R STAD YSGOLION 2019/2020</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 21** | **<u>TGCH ADDYSG – PROSIECT CYSYLLTEDD SEILWAITH</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| | **<u>EITEMAU MONITRO - GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</u>** | |
| **No. 22** | **<u>DIWEDDARIAD CRONFA GOFAL INTEGREDIG (ICF) 2019/20</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Dywedodd yr Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol fod ynr adroddiad yn rhoi trosolwg ar ddyraniad presennol cyllid ar gyfer prosiectau a gaiff eu monitro gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a'u cyllido drwy Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru fel ym mis Tachwedd 2020. Mae hefyd yn dangos y sefyllfa bresennol yng nghyswllt y cyhoeddiad y caiff y gronfa ei hymestyn | |

| | | |
|---|---|---|
| | ymhellach am flwyddyn bontio 12 mis a dynododd waith yr Adran i fynd i'r afael â'r risgiau cysylltiedig gyda'r posibilrwydd y byddai'r cyllid yn dod i ben o fis Ebrill 2022.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chytuno ar Opsiwn 1; sef y camau gweithredu sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd i werthuso'r effaith yn y dyfodol o ddod â swyddi a gwasanaethau a ariannir gan y Gronfa i ben. atal swyddi a gwasanaethau a ariennir gan y Gronfa | |
| **No. 23** | **<u>EITEM(AU) EITHRIEDIG</u>** | |
| | **<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION YR AMGYLCHEDD</u>** | |
| **No. 24** | **<u>DIWEDDARIAD AR GAPASITI CLADDEDIGAETHAU MYNWENTYDD</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf bydd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhelir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Golwg Strydoedd.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gymeradwyo'r adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn cyfeirio at faterion ariannol/busnes personau heblaw'r Awdurdod a chymeradwyo Opsiwn 1. | |
| **No. 25** | **<u>TROSGLWYDDO ASEDAU CYMUNEDOL</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf bydd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhelir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym | |

| | | |
|---|---|---|
| | Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gymeradwyo'r adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol/busnes pobl heblaw'r Awdurdod a chymeradwyo Opsiwn 2 fel y manylir yn yr adroddiad. | |
| **No. 26** | **<u>CAIS I BRYDLESU TIR</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf bydd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhelir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol/busnes pobl heblaw'r Awdurdod a chymeradwyo Opsiwn 1 fel y manylir yn yr adroddiad. | |
| **No. 27** | **<u>TROSGLWYDDO ASEDAU CYMUNEDOL</u>**<br><br>Oherwydd yr angen i ystyried yr eitem ddilynol fel mater o frys, cadarnhaodd Arweinydd y Cyngor y gellid ystyried y mater dilynol dan ddarpariaethau Paragraff 4(b), Adran 100(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972.<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf bydd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhelir yr eitem hon o fusnes gan ei | |

| | | |
|---|---|---|
| | bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Dymunai Aelodau Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd gofnodi ei werthfawrogiad o waith nifer o bartneriaid i ddod â'r prosiect hwn i ffrwyth. Teimlai'r Aelod Gweithredol y byddai'r prosiect o fudd mawr i'r gymuned ac roedd wedi gobeithio, yn dilyn i'r Pwyllgor Gweithredol ystyried yr adroddiad ac os caiff ei gymeradwyo, y gellid rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynlluniau priodol o fewn y parth cyhoeddus i sicrhau fod preswylwyr yn gwybod am y prosiect a'r buddion y byddai'n ei roi i'r gymuned.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol/busnes personau heblaw'r Awdurdod a chymeradwyo Opsiwn 4 fel y manylir yn yr adroddiad. | |